| | |
|---|---|
| GIG CYMRU NHS WALES<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Public Health Wales | **Rhif Cyfeirnod:** ICC 028<br>**Rhif y Fersiwn:** 4<br>**Dyddiad yr adolygiad nesaf:**<br>Gorffennaf 2027 |

# Polisi ar gyfer Dihalogi Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol y Gellir eu Hailddefnyddio a Ddefnyddir ar gyfer Gofal Defnyddwyr Gwasanaeth/Cleifion

**Datganiad Polisi**

Mae atal Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) y gellir eu hatal yn gofyn am gyfranogiad rhagweithiol pob aelod o staff ar draws pob lleoliad gofal iechyd. Rhaid i bob gweithiwr fod yn glir ynghylch ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn perthynas â dihalogi dyfeisiau a chyfarpar meddygol y gellir eu hailddefnyddio a ddefnyddir i roi gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth/cleifion yng ngwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r argymhellion a nodir yn y ddogfen *Dihalogi Dyfeisiau Meddygol: Cynllun Datblygu ar gyfer Sefydliadau Gofal Iechyd (Cynllun Datblygu) (2016)* yn nodi'r safonau y mae Llywodraeth Cymru yn eu disgwyl ar gyfer rheoli, datblygu a chynllunio ar gyfer dihalogi dyfeisiau meddygol. Maent yn cynnwys ymagwedd dim goddefgarwch tuag at heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hosgoi y mae pob defnyddiwr gwasanaeth/claf yn ei disgwyl.

Mae'r polisi hwn yn rhoi gwybodaeth glir i staff ar bob lefel o'r sefydliad am y gofynion ar gyfer dihalogi dyfeisiau a chyfarpar meddygol y gellir eu hailddefnyddio yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae staff Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau a chyfarpar meddygol i ddarparu ystod eang o wasanaethau i'r cyhoedd. Mae'n hanfodol bod yr holl staff sy'n ymwneud â defnyddio neu reoli dyfeisiau meddygol untro ac anymwthiol a chyfarpar gofal y gellir eu hailddefnyddio: wedi'u hyfforddi'n gymwys, yn defnyddio arferion gorau, yn cadw at safonau cyfredol a chanllawiau technegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymwneud â gwaith dihalogi effeithiol. Rhaid cael llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb clir wrth reoli gwasanaethau sy'n defnyddio dyfeisiau meddygol i sicrhau bod polisi, gweithdrefnau a phrosesau dihalogi cadarn yn cael eu defnyddio i atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hosgoi a'r niwed cysylltiedig.

Mae'r ddogfen bolisi hon yn tynnu sylw at y safon ofynnol a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru Llywodraeth Cymru 'Dihalogi Dyfeisiau Meddygol: Cynllun Datblygu ar gyfer Sefydliadau Gofal Iechyd (2016)'. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r safon ar gyfer dihalogi a nodir yng nghod ymarfer heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (2014).

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru; *Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Cymru Iachach* : Amcan Blaenoriaeth Strategol 5: Darparu *gwasanaethau rhagorol i amddiffyn y cyhoedd a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r boblogaeth*

**Ymrwymiad Polisi**

Mae dihalogi yn gyfuniad o hierarchaeth o un broses neu fwy: glanhau, diheintio a sterileiddio. Manylir ar y gofynion statudol o ran rheoli Dyfeisiau Meddygol (Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol (2002)) a sut i reoli dyfeisiau meddygol (Canllawiau Rheoli Dyfeisiau Meddygol (Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)) (2021)) yn nogfen ***Polisi Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol*** Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC 69).

Mae yna hefyd ganllawiau technegol cenedlaethol a DU cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dihalogi dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal y gellir eu hailddefnyddio. Mae Memoranda Technegol Iechyd Cymru (WHTM) yn darparu canllawiau technegol ar gyfer dihalogi offer llawfeddygol, endosgopau a dyfeisiau critigol/lled-gritigol y gellir eu hailddefnyddio yn ogystal â dihalogi llieiniau. Ceir canllawiau ar gyfer dihalogi cyfarpar gofal y gellir ei ailddefnyddio ym Mhennod 1.5 o Lawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol Cymru. Mae angen i bob sefydliad, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, gael polisi a gweithdrefnau clir a chyfredol sy'n cadw at y canllawiau statudol a thechnegol a chanllawiau atal a rheoli heintiau cyfredol ar gyfer dihalogi dyfeisiau meddygol. Dylid adolygu'r rhain bob 3 blynedd o leiaf neu wrth i dystiolaeth neu ganllawiau technegol newydd ddod i'r amlwg.

Wrth gydymffurfio ag egwyddorion canllawiau statudol y Ddyletswydd Ansawdd (2023), mae sefydliadau gofal iechyd ac unigolion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau sy'n defnyddio dyfeisiau a chyfarpar y gellir eu hailddefnyddio yn gyfreithiol gyfrifol am ddarparu gofal diogel ac effeithiol a pharhau i wella safonau. Mae hyn yn berthnasol i atal croes-heintio a lleihau risgiau trosglwyddo trwy brosesau dihalogi diogel. Mae Cod Ymarfer Cymru Gyfan ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (2014) (Safon 2) hefyd yn nodi:
*'trefniadau effeithiol ar gyfer dadheintio priodol o [g]yfarpar ac offer arall'*

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymo i:

- Diogelu defnyddwyr gwasanaeth, staff neu ymwelwyr rhag niwed neu'r risg o haint wrth ddefnyddio neu ddihalogi dyfeisiau meddygol neu gyfarpar gofal.
- Bodloni'r safonau yn y canllawiau statudol a thechnegol a'r canllawiau Atal a Rheoli Heintiau.
- Bodloni safon ar gyfer dihalogi a defnyddio dyfeisiau meddygol sy'n cyd-fynd â gofal diogel ac effeithiol a ddisgrifir yn y Ddyletswydd Ansawdd
- Defnyddio arferion gorau wrth reoli a dihalogi dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal.
- Darparu dealltwriaeth glir o'r strwythurau sefydliadol ar gyfer rheoli a lefelau'r cyfrifoldebau o ran dihalogi yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn unol â chod ymarfer heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac fel y disgrifir yng

Nghylchlythyr Iechyd Cymru, 'Dihalogi Dyfeisiau Meddygol: Cynllun Datblygu ar gyfer Sefydliadau Gofal Iechyd (2016)'.

- Sicrhau bod systemau ar waith i roi sicrwydd i'r arweinydd Gweithredol bod prosesau dihalogi diogel ar waith, eu bod yn cael eu monitro a bod unrhyw fethiant o ran dihalogi neu ddigwyddiad difrifol yn cael ei adrodd a'i reoli'n effeithlon, a bod unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu trosi'n gamau gweithredu.
- Gweithredu'r egwyddorion ar gyfer defnydd diogel, amgylchedd addas a storio dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal yn briodol yng ngwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Darparu'r hyfforddiant a'r wybodaeth angenrheidiol i staff sy'n ymwneud â phrosesau dihalogi ac asesu eu cymhwysedd parhaus.
- Asesu a chofnodi cydymffurfedd â'r polisi hwn a gweithdrefn ddihalogi Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cynaladwyedd a dim allyriadau carbon wrth reoli gwaith dihalogi lle nad yw'n peryglu diogelwch cleifion.

Mae'r Polisi hwn yn nodi ymrwymiad y sefydliad i sicrhau bod holl brosesau dihalogi dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal a gynhelir yng ngwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac ar ran y sefydliad, yn unol â'r safonau a'r canllawiau presennol a argymhellir. Mae dihalogi yn wyddor ynddi'i hun a dylid cael ei gyflawni gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol ac sy'n gymwys i gyflawni'r dasg hon

**Polisïau, Gweithdrefnau, Canllawiau Cenedlaethol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig**

Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael ar dudalen fewnrwyd Polisïau Llywodraethu Clinigol a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru):

- Polisi ar gyfer Dihalogi Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol y Gellir eu Hailddefnyddio a Ddefnyddir ar gyfer Gofal Defnyddwyr Gwasanaeth/Cleifion (Polisi ICC 28 TP01)
- Polisi Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol (ICC 69)
- Gweithdrefn Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol ICC 69/TP01
- Polisi Atal a Rheoli Heintiau (ICC 27)

Ar gael o dudalennau mewnrwyd Polisïau Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch ac Ystadau - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru):

- Polisi Iechyd a Diogelwch (ICC 10)
- Gweithdrefn rheoli gwastraff (ICC 63-TP01)
- Gweithdrefn ar gyfer cael gwared ar offer, cerbydau, dodrefn a nwyddau traul nad oes eu hangen neu sydd dros ben (ICC63-TP02)

Dogfennau eraill:

- Profion Diogelwch Prydain/Undeb Ewropeaidd a rheoliadau bywleiddiad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- UK 5-year action plan for antimicrobial resistance 2024 to 2029 - GOV.UK (www.gov.uk)

- Dihalogi Dyfeisiau Meddygol: Cynllun Datblygu ar gyfer Sefydliadau Gofal Iechyd (Cynllun Datblygu)
- Llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol Cymru, yn arbennig adran 1.5.
- Tackling antimicrobial resistance 2019–2024 The UK's five-year national action plan - ychwanegu dolen newydd pan fydd ar gael
- Cynllun datblygu dihalogi dyfeisiau meddygol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023
- Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) (2013)
- Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM):
- 01-01 Dihalogi offer llawfeddygol (dyfeisiau meddygol) a ddefnyddir mewn gofal acíwt (ar gyfer rheoli a dilysu awtoclafau mewn labordai):
    - Rhan A: Rheolaeth a Darpariaeth
    - Rhan C: Sterileiddio stêm a stêm ar gyfer sterileiddio
- 01-06 Dihalogi endosgopau hyblyg:
    - Rhan F: Decontamination of Semi-Critical Ultrasound Probes; Semi-invasive and Non-invasive Ultrasound Probes
- 07-01 Rheoli Gwastraff Gofal Iechyd yn Ddiogel

| **Cwmpas**<br><br>Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff sy'n gyfrifol am ac/neu sy'n ymwneud ag unrhyw elfennau o'r broses ddihalogi ar gyfer dyfeisiau meddygol/cyfarpar gofal cleifion y gellir eu hailddefnyddio yng ngwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn berthnasol i staff sy'n ymwneud â dihalogi cyfarpar gofal iechyd cyn archwilio, gwasanaethu, cynnal a chadw neu atgyweirio. | |
|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd** | Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gwblhau a gellir ei weld ar y tudalennau gwe polisi. |
| **Cymeradwywyd gan** | Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| **Dyddiad Cymeradwyo** | |
| **Dyddiad Adolygu** | |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | |
| **Y grŵp sydd ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau ategol** | Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| **Cyfarwyddwr Gweithredol/Cyfarwyddwr sy'n Atebol** | Claire Birchall, Cyfarwyddwr Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. |
| **Awdur** | Gail Lusardi Nyrs Ymgynghorol ar gyfer HCAI, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HARP). |

**Ymwadiad**

**Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r fersiwn fwyaf cyfredol, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu ag Uned Busnes y Bwrdd.**

**Mae hon yn ddogfen reoledig, a chedwir y prif gopi gan Uned Busnes y Bwrdd**

Er y gellir argraffu'r ddogfen hon, y fersiwn electronig a bostiwyd ar y rhyngrwyd yw'r prif gopi. Nid yw unrhyw gopïau argraffedig o'r ddogfen hon yn cael eu rheoli. **Ni** ddylid cadw'r ddogfen hon ar yriannau lleol neu rwydwaith ond dylid ei chyrchu o'r rhyngrwyd bob amser.

**Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau**

| Rhif y fersiwn | Dyddiad Adolygu | Dyddiad Cymeradwyo | Dyddiad Cyhoeddi | Crynodeb o'r Diwygiadau |
|---|---|---|---|---|
| F2 | Ionawr 2015 | 31 Ion 2013 | 31 Ion 2013 | Mae'r polisi blaenorol wedi'i wahanu'n ddwy ddogfen Polisi a Gweithdrefn benodol er mwyn cyd-fynd â gofynion polisi Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br>Mae dolenni i ddogfennau ar-lein wedi'u cynnwys. |
| F3 | Rhagfyr 2018 | | | Dogfen wedi'i hail-fformatio ymhellach er mwyn cyd-fynd â gofynion polisi Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| F4 | Ebrill 2024 | 24 Gorffennaf 2024 | 23 Awst 2024 | Adolygu a diweddaru'r cynnwys lle bo angen, gan gynnwys cynnwys gwybodaeth am Ddiheintio Lefel Uchel. Dolenni i ddogfennau wedi'u diweddaru. |